OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 310 (Cy.27)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*6 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 23(2)(a), (f)(ii) a (5), 59(2) a (3), 104(1) a (4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) a pharagraffau 12, 13 a 14 o Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) o Atodlen 4, paragraff 7(1)(a) o Atodlen 5 a pharagraff 10(1)(a) o Atodlen 6 iddi yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2007:

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "achos gofal" ("*care case*") yw achos pan fo'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac yn ddarostyngedig i orchymyn gofal, ac mae'n cynnwys gorchymyn gofal dros dro;

ystyr "yr ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer" ("*the area in which the child is ordinarily resident*") yw ardal yr awdurdod lleol lle mae cartref y plentyn;

ystyr "awdurdod ardal" ("*area authority*") mewn perthynas â phlentyn sy'n cael ei leoli neu sydd i gael ei leoli gan un awdurdod lleol, yw yr awdurdod lleol y mae'r plentyn i gael ei leoli yn ei ardal;

ystyr "awdurdod cyfrifol" ("*responsible authority*") yw—

(a) mewn perthynas â lleoliad gan awdurdod lleol (gan gynnwys un pan fo'r plentyn yn cael llety a chynhaliaeth mewn cartref gwirfoddol neu gartref preifat i blant), yw yr awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn,

(b) mewn perthynas â lleoliad gan gorff gwirfoddol o blentyn nad yw'n derbyn gofal awdurdod lleol, y corff gwirfoddol sy'n lleoli'r plentyn, ac

(**1**) 1989 p.41. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran Cymru, trosglwyddir y swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), a'r cofnod ar gyfer Deddf 1989 yn Atodlen 1 iddo ac adran 145 (1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

(c) mewn perthynas â lleoliad mewn cartref preifat i blant o blentyn nad yw naill ai'n derbyn gofal awdurdod lleol nac wedi'i letya mewn cartref o'r fath gan gorff gwirfoddol, y person sy'n cadw'r cartref;

ystyr "darparydd gofal iechyd" ("*health care provider*") yn achos lleoliad yng Nghymru, yw bwrdd iechyd lleol, neu yn achos lleoliad yn Lloegr, ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, ac yn y naill achos neu'r llall, pan yn briodol ymddiriedolaeth gwasanaeth iechyd gwladol ac mewn unrhyw achos arall, y corff cyfatebol yn y wlad lle mae'r plentyn i gael ei leoli;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "gweithiwr dolen gyswllt" ("*link worker*") yw aelod o staff cartref i blant o safle uwch priodol gyda chyfrifoldeb penodol dros ddiogelu a hybu iechyd a lles addysgol plentyn unigol a thros gyd-gysylltu â darparwyr addysg a gofal iechyd ar ran y plentyn hwnnw;

ystyr "lleoliad" ("*placement*") yn ddarostyngedig i reoliad 14 yw—

(a) darparu llety a chynhaliaeth gan awdurdod lleol i unrhyw blentyn sy'n derbyn ei ofal drwy unrhyw un o'r dulliau a bennir yn adran 23(2)(a), (aa) neu (f) o'r Ddeddf (llety a chynhaliaeth plentyn sy'n derbyn gofal awdurdod lleol);

(b) darparu llety i blentyn gan gorff gwirfoddol drwy unrhyw un o'r dulliau a bennir yn adran 59(1)(a), (aa) neu (f) o'r Ddeddf (darparu llety gan gyrff gwirfoddol), ac

(c) darparu llety i blentyn mewn cartref preifat i blant,

(ch) a rhaid dehongli'r ymadroddion "lleoli" ("*place*") ac "wedi'i leoli" ("*placed*") yn unol â hynny;

ystyr "nyrs gofrestredig" ("*regisrered nurse*") yw person a gofrestrwyd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth(**2**);

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel o gynrychiolwyr o'r fath asiantaethiau ag a ddichon gynorthwyo awdurdod cyfrifol wrth gynllunio lleoliad plentyn ac wrth gyfarfod anghenion y plentyn hwnnw yn ystod cyfnod y lleoliad;

ystyr "wedi'i leoli i'w fabwysiadu" ("*placed for adoption*") yw wedi'i leoli yn unol â Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**3**) neu, os yw'n gymwys, â Deddf Mabwysiadu 1976(**4**);

ystyr "ymarferydd cyffredinol" ("*general practitioner*") yw ymareferydd meddygol cofrestredig—

(a) sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan Ran II o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**5**)

(b) sy'n ymgymryd â gwasanaethau meddygol personol sy'n gysylltiedig â chynllun peilot o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Cychwynnol) 1977(**6**); neu

(c) sy'n darparu gwasanaethau sy'n cyfateb i wasanaethau a ddarperir o dan Rhan II o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1977, ac eithrio'n unol â'r Ddeddf honno;

ystyr "ymarferydd meddygol cofrestredig" ("*registered medical practitioner*") yw person wedi'i gofrestru'n llawn o fewn ystyr Deddf Feddygol 1983(**7**).

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn gael ei roi'n ysgrifenedig a chaniateir ei anfon drwy'r post.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

(**2**) Sefydlwyd gan Orchymyn Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 O.S. 2002/253 a daeth i rym ar 12 Chwefror 2002.
(**3**) 2002 p.38.
(**4**) 1976 p.36.
(**5**) 1977 p.49
(**6**) 1977 p.46
(**7**) 1983 p.54.

(a) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at yr Atodlen sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

Cymhwyso'r Rheoliadau

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i leoliadau—

(a) gan awdurdod lleol ar gyfer unrhyw blentyn;

(b) gan gorff gwirfoddol ar gyfer plentyn nad yw'n derbyn gofal awdurdod lleol;

(c) mewn cartref preifat i blant ar gyfer plentyn nad yw naill ai'n derbyn gofal awdurdod lleol nac wedi'i letya mewn cartref o'r fath gan gorff gwirfoddol, gan y person sy'n cadw'r cartref.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i leoli plentyn, ac eithrio gan awdurdod lleol neu gorff gwirfoddol mewn ysgol sy'n gartref plant o fewn ystyr adran 1(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**8**)

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw leoli plentyn i'w fabwysiadu.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Gwneud trefniadau

4.—(1) Cyn lleoli plentyn rhaid i'r awdurdod cyfrifol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, wneud trefniadau ar unwaith a thros dymor hir ar gyfer y lleoliad hwnnw, ac ar gyfer hybu lles y plentyn sydd i'w leoli.

(2) Pan na fo'n ymarferol gwneud y trefniadau hynny cyn y lleoli, rhaid i'r awdurdod cyfrifol eu gwneud cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

(3) Yn achos plentyn y mae adran 20(11) o'r Ddeddf yn gymwys iddo rhaid i'r awdurdod cyfrifol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod wedi cytuno ar y trefniadau gyda'r plentyn cyn gwneud lleoliad ac os nad yw hynny'n ymarferol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

(4) Mewn unrhyw achos arall pan fo plentyn yn derbyn gofal neu lety ond nad yw mewn gofal rhaid i'r awdurdod cyfrifol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, fod wedi cytuno ar y trefniadau—

(a) gyda pherson â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu

(b) os nad oes y fath berson, gyda'r person sy'n gofalu am y plentyn cyn y lleoli ac os nad yw hynny'n ymarferol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

(5) Rhaid i unrhyw drefniadau a wneir gan awdurdod cyfrifol o dan y rheoliad hwn gael eu cofnodi yn ysgrifenedig.

Materion i'w hystyried wrth wneud trefniadau a'u cynnwys

5.—(1) Yr ystyriaethau y mae'r awdurdod cyfrifol i roi sylw iddynt i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol wrth wneud y trefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 ym mhob achos yw'r ystyriaethau cyffredinol a bennir yn Atodlen 1, yr ystyriaethau ynghylch iechyd y plentyn a bennir yn Atodlen 2, yr ystyriaethau ynghylch addysg plentyn a bennir yn Atodlen 3 a'r ystyriaethau ym mharagraff (2) i (5).

(**8**) 2000 p.14.

(2) Pan fo awdurdod cyfrifol yn ystyried lleoli plentyn y tu allan i'r ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer rhaid iddo gyfeirio achos y plentyn at banel—

(a) cyn gwneud y lleoliad; neu

(b) pan nad yw'n ymarferol cyfeirio'r achos at banel cyn gwneud y lleoliad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny a sut bynnag heb fod yn hwyrach na 25 o ddiwrnodau gwaith wedi i'r lleoliad gael ei wneud.

(3) Pan na chyfeirir achos plentyn y mae paragraff (2) yn gymwys iddo gan yr awdurdod cyfrifol at banel cyn gwneud y lleoliad, rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddarparu rhesymau ysgrifenedig, wedi'u hardystio gan uwch swyddog yr awdurdod cyfrifol, dros beidio â gwneud hynny.

(4) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol beidio â lleoli plentyn y tu allan i'r ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ynddi oni bai ei fod wedi'i fodloni naill ai—

(a) nad oes lleoliad ar gael yn yr ardal honno sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn; neu

(b) y byddai lleoliad y tu allan i'r ardal honno yn fwy cydnaws â lles y plentyn nag unrhyw leoliad sydd ar gael o fewn yr ardal honno.

(5) Rhaid i unrhyw benderfyniad i leoli plentyn y tu allan i'r ardal y mae'n preswylio ynddi fel arfer, gyda rhesymau drosto, gael ei gofnodi'n ysgrifenedig a bod wedi ei ardystio gan uwch swyddog o'r awdurdod cyfrifol.

(6) Rhaid i gofnod ysgrifenedig a wneir yn unol â pharagraff (3) neu (5) fod ar gael ar ffurf addas—

(a) pan fo'r awdurdod cyfrifol yn awdurdod lleol, i'r aelod arweiniol dros wasanaethau plant o fewn yr awdurdod hwnnw; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, i uwch swyddog o'r awdurdod lleol dros yr ardal lle mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ac i uwch swyddog o'r awdurdod ardal.

(7) Pan fo awdurdod cyfrifol yn gwneud trefniadau i leoli plentyn y tu allan i Gymru rhaid iddo sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod yna gydymffurfiaeth â'r gofynion a fuasai wedi bod yn gymwys o dan y Rheoliadau hyn petai'r plentyn wedi cael ei leoli yng Nghymru.

(8) Ac eithrio mewn achos gofal, rhaid i'r trefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 gynnwys, pan fo hynny'n ymarferol, drefniadau ynghylch y materion a bennir yn Atodlen 4.

Hysbysiad o drefniadau

6.—(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â lles y plentyn, hysbysu'r personau a ganlyn yn ysgrifenedig o'r trefniadau i leoli plentyn, cyn gwneud y lleoliad—

(a) unrhyw berson y ceisiwyd arwydd ganddo o'i ddymuniadau a'i deimladau o dan adran 22(4), adran 61(2) neu adran 64(2) o'r Ddeddf (ymgynghori cyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu sy'n cael llety gan gorff gwirfoddol neu mewn cartref preifat i blant);

(b) y darparydd gofal iechyd dros yr ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ac, os yw'r plentyn i gael ei leoli y tu allan i'r ardal honno, dros yr ardal y mae'r plentyn i gael ei leoli ynddi;

(c) yr awdurdod addysg lleol dros yr ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ac, os yw'r plentyn i gael ei leoli y tu allan i'r ardal honno, dros yr ardal y mae'r plentyn i gael ei leoli ynddi;

(ch) ymarferydd cyffredinol y plentyn ac, os yw'n briodol, unrhyw ymarferydd cyffredinol y mae'r plentyn i gael ei gofrestru gydag ef wedi i'r lleoliad gael ei wneud;

(d) os yw'n briodol, yr awdurdod ardal;

(dd) unrhyw berson sy'n gofalu am y plentyn yn union cyn bod y trefniadau'n cael eu gwneud;

(e) ac eithrio mewn achos gofal, unrhyw berson sydd â gorchymyn cyswllt mewn grym o'i blaid mewn perthynas â'r plentyn, ac

(f) mewn achos gofal, unrhyw berson sy'n cael cyswllt â'r plentyn yn unol ag adran 34 o'r Ddeddf (cyswllt â phlentyn mewn gofal gan rieni etc) neu o dan orchymyn o dan yr adran honno.

(2) Pan nad yw'n ymarferol rhoi'r hysbysiad cyn gwneud y lleoliad, rhaid ei roi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny a sut bynnag dim hwyrach na 10 niwrnod gwaith o ddyddiad gwneud y lleoliad.

(3) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol anfon copi o'r trefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 neu o'r rhan honno o'r trefniadau na fydd yn ei farn ef yn rhagfarnu lles y plentyn, gyda'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ond yn achos hysbysiad i'r rheini a bennir ym mharagraff (1)(b) i (f) dim ond manylion o'r rhan honno o'r trefniadau sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol i'r personau hynny wybod amdanynt y mae'n rhaid iddo'u hanfon.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), yn achos hysbysiad i unrhyw un o'r personau neu'r cyrff a bennir ym mharagraff (1)(c) ac (ch), rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi i'r person hwnnw neu'r corff hwnnw gopïau o unrhyw adroddiad neu asesiad perthnasol sydd ar gael ar adeg gwneud y lleoliad neu a geir wedi hynny yn ystod y lleoliad.

(5) Pan fo plentyn yn cael ei leoli mewn ardal wahanol i'r ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer ynddi, pan yn hysbysu'r personau neu'r cyrff hynny a bennir ym mharagraff 1(b) i (ch) o'r trefniadau, rhaid i'r awdurdod cyfrifol ofyn ar yr un pryd i'r personau neu'r cyrff a bennir felly pan fo'n gymwys, geisio trosglwyddiad cofnodion cyn i'r lleoliad gael ei wneud, neu os nad yw hynny'n ymarferol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

(6) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol barhau i adolygu unrhyw gais a wneir yn unol â pharagraff (5) hyd nes ei fod wedi'i fodloni bod trosglwyddo'r cofnodion—

(a) naill ai wedi digwydd; neu

(b) nad oes angen iddo ddigwydd bellach.

Trefniadau ar gyfer cyswllt

7. Wrth weithredu'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 o Atodlen 4, rhaid i gorff gwirfoddol neu berson sy'n cadw cartref preifat i blant ymdrechu i hybu cyswllt rhwng y plentyn a'r personau a grybwyllir yn y paragraff hwnnw, oni bai bod gwneud hynny yn anymarferol yn rhesymol neu'n anghydnaws â lles y plentyn.

Gofal ac asesiadau iechyd

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), rhaid i awdurdod cyfrifol —

(a) cyn gwneud lleoliad neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol a sut bynnag heb fod yn hwyrach na 14 o ddiwrnodau gwaith wedi i'r lleoliad gael ei wneud, drefnu i ymarferydd meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig gynnal asesiad, a gaiff gynnwys archwiliad corfforol, o gyflwr iechyd y plentyn;

(b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (a) sy'n cynnal asesiad i baratoi adroddiad ysgrifenedig o'r asesiad sy'n trafod y materion a restrir yn Atodlen 2, gan gyfeirio'n benodol at gyflwr iechyd meddwl y plentyn;

(c) sicrhau bod copi o unrhyw adroddiad sy'n cael ei baratoi yn unol ag is-baragraff (b) ac unrhyw adroddiad o asesiad sy'n cael ei baratoi o dan y rheoliad hwn yn ystod y lleoliad, yn cael ei anfon ymlaen i'r personau a bennir ym mharagraff (1)(ch) o reoliad (6), pan fônt yn wahanol i'r personau a bennir yn is-baragraff (a); ac